Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**CYNORTHWYYDD YSTADEGAU A RISG**
**CYFLOG - GRADD 6: £20,344 – £21,589**
**(yn amodol ar werthusiad swydd)**

**Parhaol**
**37 awr yr wythnos**
**Rhif y Swydd: 502198**

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ar gyfer rôl y Swyddog Cynllunio, Perfformiad a Risg.

Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am goladu a dilysu data a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau mewnol ac allanol gan ddefnyddio cyfres o systemau a phrosesau TGCh.

Bydd gan y rôl gyfrifoldeb dros ddarparu cyfarwyddyd i staff gweithredol i sicrhau mewnbynnu digwyddiadau gweithredol cywir ac amserol i'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS), yn unol â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf. Bydd y rôl yn cefnogi holl swyddogaethau allweddol y tîm i sicrhau llif ansoddol ac amserol o wybodaeth yn fewnol ac allanol ill dau i'r sefydliad.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r

---

Fanyleb Person. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol, mae croeso i gysylltu â'r Rheolwr Llinell, Jon Carter drwy law e-bost: j-carter@southwales-fire.gov.uk.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar http://www.decymru-tan.gov.uk/ Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig i'r Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personél@decymru-tan.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw Dydd Gwener 30ain Awst 2019 am 12 hanner dydd**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**